DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

Bil Awtistiaeth (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

CYNNWYS

1 Strategaeth awtistiaeth
2 Cynnwys y strategaeth awtistiaeth
3 Cyfuno asesiadau
4 Canllawiau gan Weinidogion Cymru
5 Cyrff perthnasol: cydymffurfio â'r strategaeth a'r canllawiau awtistiaeth
6 Data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth
7 Ymgyrch ymwybyddiaeth
8 Dyletswydd i roi sylw i Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig
9 Dehongli
10 Rheoliadau
11 Dod i rym
12 Enw byr

Bil Awtistiaeth (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru a diogelu a hyrwyddo eu hawliau ac at ddibenion cysylltiedig.

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

1 Strategaeth awtistiaeth

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi dogfen sy'n nodi strategaeth ar gyfer diwallu, trwy gydol eu bywydau, anghenion personau yng Nghymru ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, a hynny trwy wella'r ddarpariaeth o wasanaethau i'r cyfryw bersonau.

(2) Cyfeirir at y ddogfen yn y Ddeddf hon fel "y strategaeth awtistiaeth".

(3) Rhaid i'r strategaeth awtistiaeth, fan lleiaf, fodloni'r gofynion a nodir yn adran 2.

(4) Rhaid gosod y strategaeth awtistiaeth gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddi gael ei pharatoi, a'i chyhoeddi heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl y diwrnod y daw'r Ddeddf hon i rym.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth awtistiaeth yn gyson a chaniateir iddynt ei diwygio.

(6) Os bydd Gweinidogion Cymru yn diwygio'r strategaeth awtistiaeth, rhaid iddynt osod y strategaeth ddiwygiedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i chyhoeddi cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

(7) Heb fod yn hwy na 3 blynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth, ac ar gyfnodau o ddim hwy na 3 blynedd wedi hynny, rhaid i Weinidogion Cymru gomisiynu adroddiad annibynnol ar ei gweithrediad parhaus a'i chynnydd.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad a baratoir o dan is-adran (7) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei baratoi, a'i gyhoeddi.

(9) Rhaid diwygio'r strategaeth awtistiaeth i adlewyrchu unrhyw argymhellion yn yr adroddiad annibynnol a baratoir o dan is-adran (7) o fewn 3 mis i gyhoeddi'r adroddiad, neu i gwblhau unrhyw ymgynghoriad o dan is-adran (10), pa un bynnag yw'r hwyraf.

(10) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff perthnasol ac unrhyw gyrff neu bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru (gan gynnwys personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau neu sy'n darparu gwasanaethau iddynt)—

(a) wrth baratoi'r strategaeth awtistiaeth; neu

(b) wrth adolygu'r strategaeth awtistiaeth mewn modd a fyddai, ym marn Gweinidogion Cymru, yn arwain at newid sylweddol iddi.

(11) Mae i'r camau a gymerir gan Weinidogion Cymru cyn i'r adran hon ddod i rym yr un effaith at ddibenion yr adran hon â phe baent wedi eu cymryd ar ôl yr adeg honno.

2 Cynnwys y strategaeth awtistiaeth

(1) Rhaid i'r strategaeth awtistiaeth—

(a) sefydlu model neu fodelau arfer gorau ar gyfer—

(i) nodi anhwylder sbectrwm awtistiaeth a chynnal asesiad diagnostig ohono;

(ii) cynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth; a

(iii) cynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a diwallu'r anghenion hynny;

(b) gwneud darpariaeth ar gyfer datblygu llwybr, sy'n cynnwys mynediad trwy fathau penodol o atgyfeirio, i ddangos y gwasanaethau sydd ar gael ac sy'n ofynnol ar gyfer personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth;

(c) darparu bod asesiadau diagnostig ac unrhyw gyfarfodydd ôl-ddiagnostig yn cael eu cychwyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn atgyfeiriad ac o leiaf o fewn unrhyw derfynau amser a nodir yn y Safon Ansawdd berthnasol a ddyroddir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (ond ni chaiff hyn rwystro gwasanaethau eraill rhag cael eu darparu cyn cychwyn asesiad diagnostig);

(d) gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal asesiadau diagnostig unigol gan dîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol;

(e) darparu bod asesiad o anghenion gofal a chymorth yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn 42 diwrnod gwaith i gael diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth neu unrhyw gyfarfod ôl-ddiagnostig, pa un bynnag yw'r hwyraf;

(f) gwneud darpariaeth i sicrhau na wrthodir mynediad i bersonau at wasanaethau ar sail cyniferydd deallusrwydd (IQ) neu oherwydd eu bod yn cael gwasanaethau ar gyfer cyflyrau meddygol eraill;

(g) amlinellu sut y mae anghenion personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth i'w diwallu gan gyrff perthnasol mewn perthynas â'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt,—

(i) mynediad at wasanaethau gofal iechyd;

(ii) mynediad at addysg;

(iii) mynediad at gyflogaeth;

(iv) mynediad at dai;

(v) mynediad at wasanaethau Cymraeg;

(vi) mynediad at wasanaethau mewn ieithoedd eraill;

(vii) mynediad at wasanaethau cyhoeddus eraill;

(viii) cynhwysiant cymdeithasol; a

(ix) mynediad at wasanaethau eirioli;

(h) gwneud darpariaeth fel bod ystod briodol o wasanaethau i gyflenwi'r strategaeth awtistiaeth ar gael yn gyson ledled Cymru;

(i) gwneud darpariaeth i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn hygyrch i bob person y mae angen y gwasanaethau hynny arnynt;

(j) gwneud darpariaeth i sicrhau gwasanaeth di-dor sy'n adlewyrchu ac yn hwyluso'r cyfnod pontio rhwng plentyndod a dod yn oedolyn;

(k) rhoi pwyslais ar sut y gellir cefnogi teuluoedd a gofalwyr personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth wrth ddiwallu anghenion y person hwnnw;

(l) gwneud darpariaeth ar gyfer ystyried dymuniadau personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a theuluoedd a gofalwyr y personau hynny;

(m) rhoi pwyslais ar sicrhau arloesedd a gwelliant wrth gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau anhwylder sbectrwm awtistiaeth;

(n) gwneud darpariaeth ar gyfer comisiynu a chyhoeddi ymchwil i unrhyw agwedd ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth;

(o) gwneud darpariaeth ar gyfer casglu, rheoli a chyhoeddi data yn unol ag adran 6;

(p) gwneud darpariaeth ar gyfer ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn unol ag adran 7;

(q) gwneud darpariaeth ar gyfer nodi gweithwyr proffesiynol allweddol a darparu hyfforddiant priodol (ond nid gorfodol) iddynt mewn perthynas â chefnogi personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth; ac

(r) gwneud darpariaeth i sefydlu'r seilwaith a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i fonitro a hyrwyddo'r modd y caiff y strategaeth awtistiaeth ei gweithredu.

(2) Caniateir i'r strategaeth awtistiaeth fynd i'r afael ag unrhyw fater arall—

(a) sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru; a

(b) sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf y Cynulliad Cenedlaethol.

3 Cyfuno asesiadau

(1) Caiff corff perthnasol gynnal unrhyw asesiad sy'n ofynnol o dan y Ddeddf hon o berson ar yr un pryd ag y bydd y corff perthnasol neu gorff arall yn cynnal asesiad arall o dan unrhyw ddeddfiad mewn perthynas â'r person hwnnw.

(2) At ddibenion is-adran (1)—

(a) caiff y corff perthnasol gynnal yr asesiad arall ar ran y corff arall neu ar y cyd ag ef; neu

(b) os yw'r corff arall eisoes wedi trefnu i'r asesiad arall gael ei gynnal ar y cyd â corff arall, caiff y corff perthnasol gynnal yr asesiad arall ar y cyd â'r corff arall a'r corff arall hwnnw.

4 Canllawiau gan Weinidogion Cymru

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff perthnasol ynghylch arfer eu swyddogaethau at ddiben sicrhau bod y strategaeth awtistiaeth yn cael ei gweithredu a'i chyflenwi a rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau hynny.

(2) Rhaid i'r canllawiau gael eu dyroddi o dan yr adran hon heb fod yn hwyrach na 3 mis ar ôl cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r canllawiau yn gyson a chaniateir iddynt eu diwygio.

(4) Os bydd Gweinidogion Cymru yn diwygio'r canllawiau rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau diwygiedig cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

(5) Wrth adolygu'r canllawiau yn gyson, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yn benodol—

(a) y graddau y mae'r canllawiau wedi bod yn effeithiol wrth sicrhau bod y strategaeth awtistiaeth gyfredol yn cael ei gweithredu; a

(b) a yw diwygiadau i'r strategaeth awtistiaeth yn ei gwneud yn briodol diwygio'r canllawiau.

(6) Rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon gynnwys yn benodol ganllawiau ynghylch—

(a) nodi personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth;

(b) personau sydd i'w pennu fel gofalwyr at ddibenion y Ddeddf hon;

(c) darparu gwasanaethau asesu diagnostig a gwasanaethau asesu anghenion;

(d) cynnwys gweithwyr proffesiynol allweddol mewn timau asesu diagnostig amlddisgyblaethol, er enghraifft—

(i) seicolegydd clinigol;

(ii) seiciatrydd;

(iii) therapydd lleferydd ac iaith;

(iv) therapydd galwedigaethol;

(v) therapydd ymddygiadol; a

(vi) gweithiwr cymdeithasol;

(e) hyfforddi staff sy'n darparu gwasanaethau; ac

(f) trefniadau lleol ar gyfer arweinyddiaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff perthnasol ac unrhyw gyrff neu bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru (gan gynnwys personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau neu sy'n darparu gwasanaethau iddynt)—

(a) cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon; neu

(b) cyn diwygio'r canllawiau mewn modd a fyddai, ym marn Gweinidogion Cymru, yn arwain at newid sylweddol iddynt.

(8) Mae i'r camau a gymerir gan Weinidogion Cymru cyn i'r adran hon ddod i rym yr un effaith at ddibenion yr adran hon â phe baent wedi eu cymryd ar ôl yr adeg honno.

5 Cyrff perthnasol: cydymffurfio â'r strategaeth a'r canllawiau awtistiaeth

Rhaid i gyrff perthnasol, wrth arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio a chyflenwi gwasanaethau i bersonau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, gydymffurfio â'r strategaeth awtistiaeth a gyhoeddir o dan adran 1 a chanllawiau a ddyroddir o dan adran 4.

6 Data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gael, cynhyrchu, a chadw data dibynadwy diweddar ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru a chyhoeddi unrhyw ddata y maent yn ystyried eu bod yn briodol i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon yn flynyddol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ofyn am ddata gan gyrff perthnasol er mwyn arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

(3) Rhaid i gyrff perthnasol ddarparu data dienw i Weinidogion Cymru os gofynnir am ddata o dan is-adran (2).

(4) Rhaid i'r holl ddata a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru fod ar ffurf ddienw.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu unrhyw ddata dienw y gofynnir amdanynt gan awduron yr adroddiad annibynnol a baratoir o dan adran 1(7).

(6) Rhaid i gyrff y GIG gasglu'r data a ganlyn i'w helpu i wneud diagnosis a darparu gwasanaethau i bersonau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth ac i alluogi cyrff y GIG i roi data dibynadwy ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth o dan is-adran (2) i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon—

(a) niferoedd y personau sydd wedi cael diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol (gan gynnwys diagnosis nas cynhaliwyd gan gyrff y GIG ond a dderbynnir ganddynt);

(b) rhifau GIG y personau hynny;

(c) yr oedran y cafodd y personau hynny ddiagnosis mewn blynyddoedd a misoedd;

(d) rhyw y personau hynny;

(e) y dulliau diagnostig a ddefnyddir i gynnal asesiadau diagnostig, os defnyddir dulliau felly, ac unrhyw sgoriau a gynhyrchir drwy ddefnyddio'r dulliau hynny;

(f) yr amser a gymerir rhwng yr atgyfeirio ar gyfer asesiad diagnostig a chyflwyno'r diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth;

(g) amcangyfrif neu ddiagnosis y diagnostegydd o ran a oes gan y personau sydd wedi cael diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth anabledd dysgu ychwanegol neu oedi datblygiadol;

(h) pa un a yw'r personau hynny ar adeg y diagnosis yn eiriol ai peidio, ac i'r rheini sy'n eiriol, pa un a oes ganddynt oedi o ran iaith ai peidio;

(i) pa grwpiau proffesiynol a oedd yn rhan o'r asesiad diagnostig (er enghraifft, paediatregydd, seiciatrydd, seicolegydd clinigol, etc); a

(j) y categorïau eraill o ddata a ragnodir gan Weinidogion Cymru.

7 Ymgyrch ymwybyddiaeth

(1) Ar ôl cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth rhaid i Weinidogion Cymru gychwyn a chynnal ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

(2) Rhaid i'r ymgyrch gynnwys elfennau sy'n gwella dealltwriaeth aelodau'r cyhoedd, cyflogwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau o anghenion y cyfryw bersonau.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod gwybodaeth am gynnydd ac effeithiolrwydd yr ymgyrch wedi'i chynnwys mewn unrhyw adroddiad a gaiff ei baratoi o dan adran 1(7).

8 Dyletswydd i roi sylw i Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ac unrhyw gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag oedolyn roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fabwysiadwyd gan benderfyniad 46/91 Cynulliad Cyffredinol ar 16 Rhagfyr 1991 ("yr Egwyddorion").

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ac unrhyw gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn neu oedolyn anabl roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i brotocol dewisol a fabwysiadwyd ar 13 Rhagfyr 2006 gan benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol A/RES/61/106 ac a agorwyd i'w lofnodi ar 30 Mawrth 2007 ("y Confensiwn Anableddau").

(3) At ddibenion is-adran (2) mae'r Confensiwn Anableddau i'w drin fel petai iddo effaith yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad a wneir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ôl ei gadarnhau, ac eithrio pan fo'r datganiad neu'r neilltuad wedi'i dynnu yn ôl wedi hynny.

(4) Rhaid i unrhyw gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn roi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i dderbyn gan benderfyniad 44/25 y Cynulliad Cyffredinol ar 20 Tachwedd 1989 ("y Confensiwn").

(5) At ddibenion is-adran (4), mae Rhan 1 o'r Confensiwn i'w thrin fel pe bai'n cael effaith—

(a) fel y'i nodir am y tro yn Rhan 1 o'r Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ond

(b) yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad fel y'u nodir am y tro yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

(6) Caiff canllawiau a ddyroddir o dan adran 4 wneud darpariaeth sy'n nodi'r hyn sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau yn is-adrannau (1) i (5) o'r adran hon, ac mae'r is-adrannau hyn i'w dehongli yn unol ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

9 Dehongli

(1) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "anhwylder sbectrwm awtistiaeth" ("autism spectrum disorder") yw—

(a) anhwylder sbectrwm awtistiaeth fel y'i diffinnir o bryd i'w gilydd yn y Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau gan Sefydliad Iechyd y Byd; a

(b) at ddiben y Ddeddf hon, unrhyw anhwylder niwroddatblygiadol arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "awdurdod lleol" ("local authority") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "canllawiau" ("guidance") yw'r canllawiau y mae'n ofynnol eu dyroddi o dan adran 4(1);

ystyr "corff GIG" ("NHS body") yw-

(a) Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

(b) Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlir o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (ac eithrio Awdurdod Ymgyfreitha'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol) dim ond mewn cysylltiad â'i swyddogaethau mewn perthynas â Chymru; neu

(c) ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlir o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

ystyr "corff perthnasol" ("*relevant body*") yw awdurdod lleol, corff GIG ac unrhyw gyrff eraill a ragnodir;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith nac yn ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 (p.80);

ystyr "gofalwr" ("*carer*") mewn perthynas â pherson ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yw'r personau hynny a bennir yn ofalwyr yn y canllawiau a ddyroddir o dan adran 4(1);

ystyr "oedolyn" ("*adult*") yw person sy'n 18 oed neu'n hŷn;

ystyr "personau" ("*persons*"), ac eithrio yn adran 8, yw plant ac oedolion yng Nghymru a dehonglir "person" yn unol â hynny;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person sydd o dan 18 oed;

ystyr "rhagnodi" ("*prescribed*") yw rhagnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "rhiant" ("*parent*") yw unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant (o fewn ystyr adran 3 o Ddeddf Plant 1989) dros blentyn;

ystyr "Safon Ansawdd" ("*Quality Standard*") yw cyhoeddiadau gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal sy'n nodi'r safonau o ran gofal neu wasanaeth a'r meysydd â blaenoriaeth ar gyfer gwella ansawdd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol;

ystyr "strategaeth awtistiaeth" ("*autism strategy*") yw'r strategaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi o dan adran 1(1);

ystyr "y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal" ("*National Institute for Health and Care Excellence*") yw'r Corff Cyhoeddus Anadrannol a sefydlwyd o dan adran 232 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

(2) Yn y Ddeddf hon mae cyfeiriadau at ddarparu gwasanaethau yn cynnwys cyfeiriadau at drefnu ar gyfer darparu gwasanaethau (a dehonglir cyfeiriadau at wasanaethau a ddarperir yn unol â hynny).

10 Rheoliadau

(1) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Ni chaniateir i offeryn statudol gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

11 Dod i rym

Daw'r Ddeddf hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o 3 mis yn dechrau â'r diwrnod y mae'n cael y Cydsyniad Brenhinol.

12 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Awtistiaeth (Cymru) 2019.